No.

# CABINET

Cofnodion cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Dr. I.J. Johnson.

## C277 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod Cabinet Bro Morgannwg.

Atgoffwyd yr Aelodau a'r Swyddogion bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr sicrhau, os oeddent yn cymryd rhan yn y Siambr ei hun am beidio ag actifadu eu meicroffon, ac i fynychwyr o bell 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad i osgoi unrhyw sŵn cefndir neu atsain pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, ac os oedd cyfranogwr yn dymuno siarad a allai actifadu ei swyddogaeth cais i siarad briodol neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw' os yn mynychu o bell.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

## C278 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Chwefror a 7 Mawrth, 2024 fel cofnod cywir.

## C279 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C280 ADRODDIAD ADOLYGU – PANEL O AELODAU ANNIBYNNOL Y PWYLLGOR SAFONAU (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2024.

Gwnaeth yr Aelodau Panel Annibynnol nifer o argymhellion i'w cyfeirio at y Cabinet, sef:

- Dylid gwneud cais am wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) o fewn pythefnos ar ôl penodi Aelodau Etholedig (ac Aelodau Cyfetholedig Pwyllgorau Craffu perthnasol gyda hawliau pleidleisio) i'w swydd a/neu o fewn pythefnos i unrhyw adnewyddiad sydd ei angen, a dylid diwygio’r llawlyfr i ymgeiswyr yn unol â hynny.
- Dylai pob Aelod Etholedig gael hyfforddiant gloywi ar y Cod Ymddygiad hanner ffordd drwy ei gyfnod etholedig yn ei swydd a bod yn rhan o Ddatblygiad Aelod parhaus.
- Dylai fod angen i bob Aelod ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant gorfodol o fewn mis i ddechrau ei swydd.
- Dylai'r hyfforddiant ymdrin yn benodol â'r risg o unrhyw ymddygiad yn digwydd yn y dyfodol a fyddai'n torri'r Cod Ymddygiad.
- Dylid gwneud ymdrechion i sicrhau bod 100% o'r gweithlu yn gwybod am y Polisi Chwythu'r Chwiban, o bosibl trwy ei gynnwys yn y pecynnau sefydlu a gloywi.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD yr argymhellion a gynigiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2024 yn cael eu cytuno i sicrhau bod yr holl Aelodau yn cydymffurfio 100% o ran Gwiriadau’r GDG ac yn glynu wrth y Cod Ymddygiad.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C281 DIWEDDARIAD CHWARTER 2 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2024, fodd bynnag, cyfeiriodd yr Arweinydd at y ffaith y bu adolygiad dilynol o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn Chwarter 3 a fyddai'n dod i'r Cabinet fel cyfeiriad yn fuan.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch a oedd 'Brexit' a 'Covid-19' yn dal i fod yn risgiau corfforaethol perthnasol, ond dywedodd yr Arweinydd fod y ddau fater hynny yn dal i gael effaith ar y Cyngor ac yn cael sylw pellach yn niweddariad Chwarter 3.

Byddai adolygiad cyflawn pellach o'r Gofrestr Risgiau ar gyfer y flwyddyn newydd hefyd.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD yr argymhellion a gynigiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2024 yn cael eu cytuno ac y byddent yn cael eu trafod ymhellach fel rhan o drafodaethau Chwarter 3 ac adolygu'r Gofrestr Risgiau ar gyfer y flwyddyn newydd.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C282 DIWEDDARIAD CH3: AMSERLEN RHAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU 2023/24 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2024 i gyflwyno i'r Aelodau ddiweddariad Chwarter 3 o amserlen rhaglen waith Archwilio Cymru fel sy'n cyd-fynd â Chynllun Archwilio Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2023/24.

Ystyriodd y Pwyllgor y Gwasanaeth Tân ac Achub a dywedodd y dylai'r Cyngor gyfrannu at unrhyw adolygiad o'r gwasanaeth hwnnw. Dywedodd yr Arweinydd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio gyda'r comisiynwyr a oedd wedi eu penodi ar 6 Chwefror 2024 ac y byddai’r Cyngor yn gweithio gyda nhw wrth symud ymlaen.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y cyfeiriad a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C283 DIGARTREFEDD – DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN AILGARTREFU CYFLYM (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2024.

Dywedodd yr Arweinydd fod sefyllfa anodd yn wynebu cynghorau yn genedlaethol, gyda 11,000 o bobl yng Nghymru mewn llety dros dro. Cafwyd trafodaeth yn y cyfarfod ynghylch atal digartrefedd sydd o ganlyniad i droi pobl allan o’u cartrefi a pharhaodd y Cyngor i weithio yn y maes hwnnw, yn ogystal â’r ffaith bod mynediad i lety rhent preifat dim ond yn rhan o'r ateb i'r argyfwng tai.

Nododd y Pwyllgor y pwysau gwasanaeth presennol sy'n deillio o ddigartrefedd a'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau'r defnydd o lety dros dro. Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn parhau i weithio i leihau defnydd o'r fath drwy adeiladu mwy o gartrefi, gyda mwy na 200 o gartrefi yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Galwodd y Pwyllgor hefyd ar y Cyngor i lobïo Llywodraeth y DU i gynyddu'r gyfradd Lwfans Tai Lleol er mwyn sicrhau bod rhenti preifat yn fforddiadwy.

Eglurodd y Cynghorydd Perkes fod mwy na 200 o gartrefi yn cael eu hadeiladu dros y flwyddyn nesaf gyda blaenraglen waith i ddarparu mwy yn y dyfodol hefyd.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y Pwyllgor yn cael ei ddiolch am ei sylwadau a bod y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel a gynhaliwyd ar 7 Chwefror yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C284 CYDBWYLLGOR GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2024.

Ymhlith yr eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod roedd yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2022-23 y GRhR a Chynnig Cyllideb Ddrafft 2024-25 y GRhR a gymeradwywyd gan y tri Awdurdod Lleol.

Diolchodd y Cynghorydd Sivagnanam i staff y GRhR a barhaodd i weithio dan amgylchiadau anodd o fewn yr adnoddau sydd ar gael a gyda mwy o bwysau gwaith.

PENDERFYNWYD - BOD cofnodion cyfarfod Pwyllgor y GRhR a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi’r cofnodion.

## C285 DIWEDDARIAD AR FENTRAU CYDWEITHIO STRATEGOL (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i’r Cabinet ar fentrau cydweithio strategol y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn ddiweddariad 6 mis ar drefniadau cydweithio a chyfeiriodd yr Arweinydd at y nifer fawr o bartneriaid yr oedd y Cyngor yn gweithio gyda nhw, ac roedd Aelodau'r Cabinet yn gweithio’n agos gyda nifer ohonynt. Roedd y diweddariadau ar y trefniadau a oedd yn cael eu gwneud i’w gweld ym mharagraffau 2.2 ymlaen yr adroddiad a chyfeiriodd yr Arweinydd at y bartneriaeth newydd yn y Barri gydag adroddiad i gael ei gyflwyno i'r Cabinet yn nes ymlaen.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD - BOD y mentrau cydweithio strategol a oedd ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu a datblygu gwasanaethau'r Cyngor a chanlyniadau ac amcanion lles y Cyngor yn cael eu cymeradwyo.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am fentrau cydweithio strategol.

**C286 DYFARNU GRANT AC YMESTYN TRWYDDED I YMDDIRIEDOLAETH SIARTER Y BONT-FAEN 2024/25 I 2028/29 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer dyfarnu grant o gyllidebau refeniw corfforaethol 2024/25, 2025/26, 2026/27, 2027/28 a 2028/29 a dyfarnu trwydded gyfatebol ar gyfer Mur Tref y Bont-faen ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2029.

Dywedodd yr Arweinydd fod Ymddiriedolaeth Siarter y Bont-faen yn sefydliad yr oedd ei thref yn bwysig iawn iddi ac a oedd wedi gweithio gyda'r Cyngor o'r blaen i weinyddu'r gwaith i adfer mur y dref i sicrhau ei fod mewn 'cyflwr diogel a deniadol'. Canlyniad hyn oedd darn rhyfeddol o waith. Roedd yr adroddiad yn cynnig parhau â'r bartneriaeth honno dros y blynyddoedd i ddod. Diolchodd yr Arweinydd yn bersonol i'r Ymddiriedolaeth am ei gwaith eithriadol.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD grant o £1,500 y flwyddyn yn cael ei ddyfarnu i Sefydliad Elusennol Corfforedig (SEC) Ymddiriedolaeth Siarter y Bont-faen ar gyfer 2024/25, 2025/26, 2026/27, 2027/28 a 2028/29 a bod trwydded gyfatebol yn cael ei gwneud ar gyfer y cyfnod.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gytuno ar y telerau a gweithredu'r

Drwydded rhwng Cyngor Bro Morgannwg a SEC Ymddiriedolaeth Siarter y Bont-faen yn unol â Phenderfyniad (1) uchod.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi gwaith cynnal a chadw i gael ei wneud i Fur Tref y Bont-faen gan SEC Ymddiriedolaeth Siarter y Bont-faen.

(2) Galluogi Trwydded i gael ei chytuno rhwng Cyngor Bro Morgannwg ac SEC Ymddiriedolaeth Siarter y Bont-faen ar gyfer Muriau Tref y Bont-faen.

**C287 PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU ARCHWILIO MEWNOL RHANBARTHOL (RIASS) 2024 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i Aelodau'r Cabinet ar adnewyddu trefniant partneriaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol a Rennir Rhanbarthol (GAMRRh) o fis Ebrill 2024 a chaniatáu i bartneriaid newydd ymuno.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at Eitemau Agenda 18 a 19 a oedd yn gyfeiriad ac yn adroddiad ar yr un peth a fyddai'n cael eu hystyried yn ddiweddarach ar yr agenda dan Ran II.

Roedd swyddogion A151 o Awdurdodau Unedol eraill De Cymru wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â'r GAMRRh yn ystod 2024/25 a byddai'r Cabinet yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar ôl i'r trafodaethau hynny symud ymlaen.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo, ac y byddai Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i gynnal trefniant y GAMRRh ac yn ymrwymo i Gytundeb Partneriaeth parhaus gyda phroses adolygu ffurfiol wedi'i chynnwys ynddo.

(2) BOD cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i bartneriaid ychwanegol ymuno â'r GAMRRh fel partneriaid cyfartal yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd y GAMRRh, lle byddai Cyngor Bro Morgannwg yn gyflogwr i'r holl staff yn y gwasanaeth.

(3) BOD y materion a nodir ym mharagraffau 2.3 a 2.4 yr adroddiad mewn perthynas ag Atodiad 1 yn cael eu hystyried dan adroddiad pellach ar Ran II yr agenda.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cefnogi parhad statws y GAMRRh a gynhelir gan Fro Morgannwg a'r Cytundeb Partneriaeth.

(2) Galluogi Bwrdd y GAMRRh i gyflawni ei amcanion.

(3) Galluogi trafodaeth sy'n ymgorffori gwybodaeth fasnachol sensitif.

**C288 TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2025/26 (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am ganlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ar drefniadau derbyn i ysgolion ar gyfer Ysgolion Cymunedol yn unol â Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr adroddiad a'r atodiadau eraill a gynhwysir fel rhan o'r adroddiad yn cael eu nodi.

(2) BOD y Polisi Derbyn i Ysgolion yn Atodiad A yn cael ei gymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Roedd angen i'r Cyngor adolygu ac ymgynghori ar dderbyniadau i ysgolion yn flynyddol ac adrodd am ganlyniad yr ymgynghoriad ac unrhyw gynigion a ddeilliodd ohono.

**C289 ADOLYGIAD O GYNLLUNIAU TRWYDDED PARCIO PRESWYL 2021 Y CYNGOR (WCA) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd adolygu, a lle bo angen, cynnig diwygiadau i gynlluniau trwyddedau parcio preswylwyr 2021 a weithredwyd yn Cosmeston, y Bont-faen, Ynys y Barri, y Cnap ac Aberogwr.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod adborth wedi dod i law gan breswylwyr yn ystod yr adolygiad:

- Ychydig iawn o gwynion oedd wedi bod am y cynllun yn y Bont-faen, felly cynigiwyd cadw'r cynllun presennol.
- Byddai system Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig yn cael ei chyflwyno yn Cosmeston felly cynigiwyd cadw'r cynllun presennol.
- Byddai newidiadau i'r cynllun yn Ynys y Barri a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad ac Argymhelliad (1).
- Roedd un newid i'r cynllun yn y Cnap ar gyfer preswylwyr Glan Hafren a oedd am gael eu cynnwys yn y cynllun a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad ac Argymhelliad (2).
- Cafwyd adborth da yn Aberogwr ac roedd arwyddion ychwanegol yn cael eu hystyried ar gyfer Seaview Drive.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi mewn egwyddor i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Adeiladau a Chymdogaeth, i ailgynllunio ac ymgynghori ar Gynllun Trwyddedau Parcio Preswylwyr diwygiedig ar gyfer Ynys y Barri i gynnwys parthau symlach, mwy o fannau aros cyfyngedig i ymwelwyr a llinellau gwyn i nodi parthau parcio preswylwyr.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi mewn egwyddor i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Adeiladau a Chymdogaeth, i ddiwygio'r Cynllun Trwyddedau Parcio Preswylwyr ar gyfer y Cnap i gynnwys y fflatiau yng Nglan Hafren (mae Atodiad B yr adroddiad yn cyfeirio at hyn).

(3) BOD adroddiad pellach yn cael ei dderbyn gan y Cabinet, cyn mis Awst 2024, sy'n amlinellu'r cynigion ar gyfer adennill costau ar gyfer Trwyddedau Parcio Preswylwyr.

(4) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd i'w ystyried.

(5) BOD dim sylwadau pellach yn cael eu derbyn gan y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd, byddai Penderfyniadau (1), (2) a (3) yn cael eu hystyried fel y cytunwyd.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Galluogi ailgynllunio Cynllun Trwyddedau Parcio Preswylwyr Ynys y Barri i fynd i'r afael â phryderon a fynegwyd gan breswylwyr ac ymwelwyr.

(2) Cynnwys y fflatiau yng Nglan Hafren yng Nghynllun Trwyddedau Parcio Preswylwyr y Cnap.

(3) Amlinellu'r cynigion ar gyfer adennill costau ar gyfer Trwyddedau Parcio Preswylwyr.

(4) Galluogi Craffu i ystyried yr adroddiad a gwneud argymhellion yn ôl yr angen.

(5) Gwneud cynnydd ar bob mater os yw'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn cytuno.

**C290 ADRODDIAD DIWEDDARU: CANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF (WCA) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ar gyfer Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref y Cyngor a cheisio cymeradwyaeth i ymestyn y brydles a gwella'r ffordd fynediad sy'n arwain at safle Llandŵ.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at Dabl 2 ar dudalen 5 yr adroddiad a oedd yn rhoi dadansoddiad o'r deunydd a waredwyd ac a ailgylchwyd ym mhob safle a'r perfformiad dargyfeirio gwastraff a ddangosodd fod angen cynyddu swm y deunyddiau wedi'u hailgylchu sy'n cael eu prosesu a lleihau swm y gwastraff gweddilliol.

Roedd y system trefnu slot wedi bod yn boblogaidd iawn gyda phreswylwyr gyda chyfanswm o dros 200,000 o slotiau wedi'u trefnu yn y ddau safle yn ystod 2023, gan fod hyn yn cyfyngu amseroedd aros yn enwedig ar benwythnosau a gwyliau banc. Yn ogystal, mae'r system feddalwedd bellach yn galluogi trefnu slot mewn amser real, ac yn galluogi apwyntiadau i gael eu gwneud ar unwaith ac ar gyfer yr un diwrnod, yn amodol ar yr hyn sydd ar gael.

Roedd rhai preswylwyr wedi cael trafferth cael mynediad i'r safle yn Llandŵ, ac roedd cyllid wedi'i ddyrannu i wella arwyneb y ffordd breifat a gwneud mynediad i'r sgipiau yn fwy hygyrch ar y safle ei hun.

Dywedodd y Cynghorydd John ei fod yn newyddion da i breswylwyr Llandŵ a'i fod yn falch bod cytundeb wedi'i wneud gyda'r perchennog dan drefniadau prydles y safle.

Dywedodd yr Arweinydd fod rheoliadau llym ar gyfer safleoedd o'r fath a'r mater o wario arian cyhoeddus ar eiddo preifat a bod yn rhaid i hynny fod yn benderfyniad cyhoeddus ar ôl pasio'r prawf budd y cyhoedd cysylltiedig.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD prydles Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) Llandŵ yn cael ei chymeradwyo mewn egwyddor i'w hymestyn am 5 mlynedd arall i gynnwys cymal terfynu wedi 3 blynedd os bydd tir amgen addas ar gyfer adleoli'r safle ar gael.

(2) BOD perfformiad ailgylchu presennol y ddwy CAGC yn cael ei nodi.

(3) BOD y gwaith arfaethedig o atgyweirio'r ffordd fynediad sy'n arwain at CAGC y Cyngor yn Llandŵ fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo mewn egwyddor.

(4) BOD yr adroddiad a'r atodiadau'n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd i'w hystyried, gydag unrhyw safbwyntiau ac argymhellion yn cael eu cyfeirio i'r Cabinet i'w hystyried.

(5) BOD y penderfyniadau uchod yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi'u cymeradwyo oni bai bod unrhyw safbwyntiau i'r gwrthwyneb yn cael eu mynegi gan y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod digon o ddarpariaeth yng ngorllewin y Fro a sicrhau bod parhad gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

(2) Sicrhau bod yr Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad presennol y ddwy Ganolfan Ailgylchu.

(3) Gwella ffordd fynediad safle CAGC Llandŵ a sicrhau ei bod yn parhau'n hygyrch i'r rhai sy'n byw yng ngorllewin y Fro.

(4) Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ystyried manylion yr adroddiad.

(5) Galluogi'r gwasanaeth i baratoi i wneud y newidiadau gwasanaeth angenrheidiol cyn gynted â phosibl.

**C291 CAFFAEL AR GYFER CYFLENWI A GOSOD TEIARS I FFLYD Y CYNGOR (WCA) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd cael cymeradwyaeth i dendro a dyfarnu contract ar gyfer Cyflenwi a Gosod Teiars i fflyd y Cyngor.

Byddai ymgeiswyr llwyddiannus o'r ymarfer tendro yn cael eu gwerthuso yn seiliedig ar ddwy elfen, pris 60% ac ansawdd 40%, i wasanaethu'r angen am deiars cryf a dibynadwy ar gyfer cerbydau fflyd y Cyngor.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y broses dendro a nodir yn yr adroddiad, sy'n hwyluso dyfarnu contract 'Cyflenwi a Gosod Teiars' i'r cyflenwr/cyflenwyr llwyddiannus rhwng 1 Mai 2024 a 30 Ebrill 2026, gydag estyniad dewisol am hyd at ddwy flynedd, yn amodol ar gytundeb ar y cyd, yn cael ei chymeradwyo.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Adeiladau a Chymdogaeth, i ddyfarnu'r contract i'r cyflenwr/cyflenwyr llwyddiannus.

(3) BOD y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cael awdurdod i weithredu a chwblhau'r contract (ac unrhyw ddogfennau cyfreithiol angenrheidiol eraill sy'n gysylltiedig â'r contract) gyda'r cyflenwr/cyflenwyr a ddewiswyd.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau'r gwerth gorau i'r Cyngor wrth gaffael teiars.

(2) Gwarantu gwasanaeth di-dor ar gyfer anghenion gweithredol fflyd y Cyngor.

(3) Sefydlu contract cyfreithiol rwymol rhwng y Cyngor a'r cyflenwr/cyflenwyr a ddewiswyd.

**C292 CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-25 (YCCGR) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-25.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod y Cabinet eisoes wedi cytuno i gadw amcanion cydraddoldeb Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024 am flwyddyn arall fel y gellid cynnal adolygiad manwl o ymchwil a gwybodaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac i ddatblygu set newydd ochr yn ochr â datblygu amcanion lles corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2025 – 2030.

Ymgysylltodd y Cyngor â rhanddeiliaid allweddol ac roedd cefnogaeth i gynnal yr amcanion presennol am flwyddyn arall ac roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn gefnogol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam ei bod yn falch o fod yn rhan o Gyngor a oedd yn dilyn cyfraith cydraddoldeb ac yn ceisio ymgysylltu â chymunedau heb

wahaniaethu, gyda chydraddoldeb yn rhan o holl bolisïau'r Cyngor i sicrhau bod holl wasanaethau'r Cyngor yn deg ac yn hygyrch i holl ddinasyddion Bro Morgannwg a fyddai'n cael eu trin ag urddas a pharch.

Byddai peth o'r wybodaeth bellach sydd i'w hystyried yn dod o adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach' yn ogystal ag arolwg 'Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro' y Cyngor, yn ogystal â gweithio gyda'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a grwpiau sy'n eirioli drostynt i ddeall cyd-destun lleol a thueddiadau cenedlaethol.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn dda sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyd-fynd â’r Cynllun Corfforaethol.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) Bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig ar gyfer 2024 - 2025 (a gynhwysir yn Atodiad A yr adroddiad) yn cael ei gymeradwyo a bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (a gynhwysir yn Atodiad B yr adroddiad) yn cael ei nodi.

(2) BOD y weithdrefn Penderfyniadau Brys fel y nodir yn Adran 15.14 Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei chymeradwyo fel y gellid cyhoeddi’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig erbyn 31 Mawrth 2024 (pedair blynedd ar ôl cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024).

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Cyflawni'r rhwymedigaeth i adolygu amcanion cydraddoldeb y Cyngor ddim llai na phob pedair blynedd.

**C293 GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD –**

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o’r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

**C294 PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU ARCHWILIO MEWNOL RHANBARTHOL (RIASS) 2024 (CYF) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 14) -**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2024.

Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cabinet y dylai Cyngor Bro Morgannwg barhau i gynnal y trefniant Gwasanaethau a Rennir ac y dylai'r Cyngor ymrwymo i Gytundeb Partneriaeth parhaus gyda phroses adolygu ffurfiol wedi'i chynnwys.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd 11 Mawrth 2024 yn cael ei nodi a'i ystyried ynghyd â'r adroddiadau Rhan I a Rhan II cysylltiedig ar agenda'r cyfarfod.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C295 PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU ARCHWILIO MEWNOL RHANBARTHOL (RIASS) 2024 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 14) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i Aelodau'r Cabinet ar adnewyddu Cytundeb Partneriaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol a Rennir Rhanbarthol (GAMRRh) o fis Ebrill 2024 a chaniatáu i bartneriaid newydd ymuno.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr adroddiad Rhan I a'r cyfeiriad Rhan II cysylltiedig ar y mater a chyfeiriodd y Cabinet at y materion a nodir ym mharagraffau 2.3 a 2.4 yr adroddiad Rhan II mewn perthynas ag Atodiad 1.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo, ac y byddai Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i gynnal trefniant y GAMRRh ac yn ymrwymo i Gytundeb Partneriaeth parhaus gyda phroses adolygu ffurfiol wedi'i chynnwys ynddo.

(2) BOD cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i bartneriaid ychwanegol ymuno â'r GAMRRh fel partneriaid cyfartal yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd y GAMRRh, lle byddai Cyngor Bro Morgannwg yn gyflogwr i'r holl staff yn y gwasanaeth.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Galluogi parhad statws y GAMRRh a gynhelir gan Fro Morgannwg a'r Cytundeb Partneriaeth.

(2) Galluogi Bwrdd y GAMRRh i gyflawni ei amcanion.